

Gwerth Cymdeithasol

Ni ddylai cyflwyniad fod yn fwy na 1 dudalen o A4 (Ffont Arial 12).

Eglurwch sut ydych yn bwriadu cyflawni gyrwyr polisi caffael a chymalau ac amcanion gwerth cymdeithasol Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru a ddisgrifir isod:

- Manylion sut fydd cyflwyno gwerth cymdeithasol yn cael ei reoli a'i fonitro yn y sefydliad, gan gynnwys sut fyddwch yn cyflwyno gwerth cymdeithasol.
- Beth fydd eich prosesau ar gyfer ymgysylltu a chydweithio gyda rhan-ddeiliaid perthnasol wrth gyflwyno Gwerth Cymdeithasol? (Angen nodi rhan-ddeiliaid allweddol i gefnogi eich mentrau)
- Sut fyddwch yn ymgysylltu gyda sefydliadau Gwirfoddol, Cymunedol a'r Mentrau Cymdeithasol (VCSE) lleol wrth gyflawni eich mentrau arfaethedig?

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth glir o sut y byddant yn cyflawni Gwerth Cymdeithasol mewn perthynas â chwmpas y prosiect hwn. Dylai hyn gynnwys:

- Yr hyn a fydd yn cael ei gyflawni sy'n mynd y tu hwnt i ofynion craidd y prosiect.
- Sut a phryd y bydd y Gwerth Cymdeithasol yn cael ei gyflawni.
- Pa fonitro a gwerthuso fydd yn cael ei weithredu i fesur canlyniadau.

Ni ddylai cyflwyniadau gynnwys polisiau Gwerth Cymdeithasol neu Gyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CSR) generig. Rhaid i'r cynnwys fod yn benodol i'r prosiect hwn.

Bydd y cyflwyniad Gwerth Cymdeithasol yn cael ei sgorio gan y panel gan ddefnyddio'r Fethodoleg Sgorio Ansawdd fel y disgrifir o dan Adran 5 o'r ITT.

Gyrwyr polisi a chymalau ac amcanion gwerth cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

A ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2016, yn canolbwyntio ar wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gyda'r nodau isod:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Nod y Ddeddf yw helpu i greu Cymru yr ydym oll eisiau byw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol.

Datganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS)

Yn sefydlu nifer o egwyddorion allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gaffael cyhoeddus eu rheoli ar draws Cymru. Mae hyn yn cynnwys nifer o egwyddorion sy'n cefnogi cyflawniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn uniongyrchol, sef:

- Hyfforddi a Recriwtio Pobl Economaidd Anweithredol
- Mentrau Cadwyn Gyflenwi a Gweithio gyda'r Trydydd Sector
- Mentrau Amgylcheddol
- Mentrau Cymunedol a Diwylliannol
- Mentrau Addysgiadol
- Cadw a Hyfforddi'r Gweithlu Presennol

Enghreifftiau o gyflawni Gwerth Cymdeithasol y gellid ei gynnig gan Ymgeisydd

1. Gogledd Cymru ffyniannus

Deilliannau: Gweithlu mwy medrus, cynhwysol a gwydn, gan roi hwb i ffyniant economaidd yng Ngogledd Cymru.

- Gwell Sgiliau Gweithlu
- Mwy o gyfleoedd cyflogaeth
- Economi lleol cryfach
- Mwy o Gynhwysiant yn y Gweithlu
- Hwb i lwyddiant busnesau bach a chanolig
- Mwy o ymgysylltu â'r gymuned

Enghreifftiau o sut y gallai'r cyflenwr gyflawni:

- Datblygu Gweithlu Lleol – Cynnal gweithdai am ddim ar sgiliau ar gyfer crefftwyr lleol.
- Uwchsgilio Talent Leol – Cynnig dosbarthiadau meistr digidol am ddim (e.e., AI, codio, seiberddiogelwch) mewn partneriaeth â phrifysgolion / ysgolion / Colegau AB lleol.
- Cymorth i Fusnesau Newydd – Darparu mentora busnes am ddim i entrepreneuriaid technoleg yng nghefn gwlad Gogledd Cymru.
- Lleoliadau Gwaith a Mentora – Cynnig lleoliadau interniaeth â thâl i bobl ifanc sydd â diddordeb mewn ymgynghoriaeth busnes.
- Hyfforddi Gyrfa – Darparu clinigau CV am ddim a hyfforddiant cyfweliad i geiswyr gwaith sy'n trosglwyddo i ddiwydiannau newydd.

- Sesiynau Hyfforddi Pwrpasol – Cynnal gweithdai ar feysydd sy'n dod i'r amlwg fel awtomeiddio, adeiladu gwyrdd, a saernio digidol.
- Archwiliadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – Gweithredu polisiau sy'n cynyddu cyflogaeth i fenywod, lleiafrifoedd ethnig, a gweithwyr anabl mewn prosiectau mawr.
- Peilot Gweithio – Cefnogi busnesau bach a chanolig lleol i ddatblygu modelau gweithio hybrid, gan wella cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

2. Gogledd Cymru Gwydn

Deilliannau: Adeiladu Gogledd Cymru mwy gwydn, gan sicrhau bod y rhanbarth yn ffynnu er gwaethaf heriau, yn parhau i arloesi, ac yn cynnal ansawdd bywyd uchel i'w breswylwyr.

- Arallgyfeirio ac Arloesi Economaidd
- Cymorth i ddiwydiannau sy'n dod i'r amlwg
- Hyrwyddo Mentrau'r Economi Gwyrdd
- Cryfhau Rhwydweithiau Cymunedol
- Rhaglenni Cymorth Busnes
- Hyfforddiant gwytnwch ar gyfer busnesau bach a chanolig
- Mannau Gwyrdd a Bioamrywiaeth
- Gwydnwch y Gadwyn Gyflenwi
- Mentrau Ynni Cymunedol

Enghreifftiau o sut y gallai'r cyflenwr gyflawni:

- Gallai ymgynghoriaeth ynni helpu busnesau bach a chanolig lleol i adnabod meysydd i leihau'r defnydd o ynni trwy gynnal archwiliadau ynni ac argymhell atebion arbed ynni (e.e., goleuadau LED, systemau gwresogi ynni isel), gan gyfrannu at economi gwyrdd.
- Gallai cyflenwr noddi neu drefnu digwyddiadau cymunedol lleol fel gweithdai, cyfarfodydd rhwydweithio, neu neuaddau tref sy'n dod â busnesau lleol, cynrychiolwyr llywodraeth, ac arweinwyr cymunedol ynghyd i drafod cyfleoedd, heriau ac atebion mewn byd ôl-bandemig.
- Mentora a Hyfforddi – Gallai cyflenwr gynnig rhaglenni mentora ar gyfer busnesau newydd neu fusnesau bach yng Ngogledd Cymru, gan eu helpu i dyfu drwy ddarparu cyngor ar feysydd fel arweinyddiaeth, marchnata, rheoli ariannol, a gweithrediadau graddio.
- Mynediad at Gyllid – Gallai cyflenwr cyllid gynnig gweithdai busnes neu wasanaethau cyngori am ddim ar gael mynediad at gyllid, grantiau neu fenthyciadau gan y llywodraeth i fusnesau bach yng Ngogledd Cymru, gan sicrhau bod ganddynt y cymorth ariannol sydd ei angen ar gyfer ehangu neu arloesi

3. Gogledd Cymru iachach

Deilliannau: Gweithlu a chymuned sy'n blaenoriaethu iechyd meddwl a chorfforol, gan arwain at well cynhyrchiant ac ansawdd bywyd.

Engbreifftiau o sut y gallai'r cyflenwr gyflawni:

- Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl - Darparu gweithdai iechyd meddwl am ddim i fusnesau ac elusennau lleol.
- Ymgyrchoedd Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl: Hyrwyddo ymwybyddiaeth iechyd meddwl trwy ymgyrchoedd sy'n addysgu pobl ar sut i geisio help, lleihau stigma, ac adnabod arwyddion iechyd meddwl ynddynt eu hunain ac eraill. Gallai hyn gynnwys gweminarau, poster, a chyrhaeddiad cyfryngau cymdeithasol.
- Addysg Bwyd a Maeth - Partner gydag ysgolion lleol i gyflwyno mentrau bwyta'n iach, gan leihau gordewdra plant.
- Rhoddion arian ac amser yn gwirfoddoli i elusennau a sefydliadau lleol sy'n cefnogi iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru
- Ariannu neu gynnig gweithdai sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo iechyd corfforol, fel ymarferion lleddfu straen (ioga, ymestyn), technegau ymwybyddiaeth ofalgar, ac adeiladu arferion iach. Gallai'r rhain fod ar gael wyneb-yn-wyneb ac ar-lein, gan eu gwneud yn hygyrch i gynulleidfa ehangach.
- Cefnogi sefydliadau i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd meddwl a chorfforol yn y gymuned ehangach. Gallai hyn gynnwys trefnu ffeiriau iechyd, clinigau brechu, neu gynnig digwyddiadau cyhoeddus am ddim sy'n canolbwyntio ar fyw'n iach.
- Cynnal diwrnodau chwaraeon cymunedol, heriau ffitrwydd, neu deithiau cerdded lles i hyrwyddo gweithgarwch corfforol yn y gymuned. Byddai'r digwyddiadau hyn yn annog cyfranogiad ar draws grwpiau oedran ac yn helpu i adeiladu diwylliant o iechyd yn y gymuned.

4. Gogledd Cymru Mwy Cyfartal

Deilliannau: Economi tecach lle mae rhwystrau i gyflogaeth, addysg a chyfleoedd yn cael eu dileu.

Engbreifftiau o sut y gallai'r cyflenwr gyflawni:

- Rhaglenni Arweinyddiaeth Menywod a Lleiafrifoedd - Darparu mentora i fenywod a lleiafrifoedd ethnig mewn STEM ac arweinyddiaeth busnes.

- Gwasanaethau Hygyrch – Sicrhau bod holl allbynnau prosiectau (e.e. adroddiadau, deunyddiau hyfforddi) ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac yn darparu ar gyfer anableddau (e.e. Braille, dehonglwyr iaith arwyddion).

5. Gogledd Cymru o Gymunedau Cydlynol

Deilliannau: Mae cymunedau'n teimlo'n fwy cysylltiedig, yn fwy diogel ac wedi'u grymuso wrth lunio eu dyfodol.

- Ymgysylltu â'r Gymuned a'i Grymuso
- Hyrwyddo Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Adeiladu Cysylltiadau a Rhwydweithiau Cymdeithasol
- Gwirfoddoli a Gweithredu Cymdeithasol
- Diogelwch ac Atal Troseddu

Enghreifftiau o sut y gallai'r cyflenwr gyflawni:

- Trefnu pobl ifanc i ddylunio ac arwain rhaglenni datblygu cymunedol sy'n mynd i'r afael â materion sy'n berthnasol iddynt, megis cynaliadwyedd amgylcheddol, cynhwysiant cymdeithasol, neu ymwybyddiaeth iechyd meddwl.
- Noddi neu drefnu digwyddiadau fel gwyliau diwylliannol, ffeiriau bwyd, neu arddangosfeydd celf sy'n arddangos yr ethnigrwydd, y diwylliannau a'r traddodiadau amrywiol yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn annog dealltwriaeth draws-ddiwylliannol ac undod o fewn y gymuned.
- Sefydlu neu gefnogi canolfannau cymunedol lleol sy'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau cymorth, gan gynnwys banciau bwyd, cwnsela iechyd meddwl, cyngor cyfreithiol, a chymorth i chwilio am waith. Gallai'r hybiau hyn wasanaethu fel mannau diogel i unigolion a theuluoedd sydd angen cefnogaeth.
- Cefnogi neu bartneru gydag elusennau a sefydliadau lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth tai ac atal i'r rhai sydd mewn perygl o ddigartrefedd. Gallai hyn gynnwys llochesi brys, llety dros dro, neu raglenni cyflogaeth i helpu unigolion i symud tuag at dai parhaol

6. Gogledd Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Deilliannau: Hunaniaeth Gymreig falch a ffyniannus, lle mae iaith a diwylliant yn parhau i fod wrth wraidd twf economaidd.

- Cadw a hyrwyddo hunaniaeth Gymreig
- Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn busnes

- Cefnogaeth i Gelfyddydau a Diwylliant Cymru
- Gwell dysgu Gymraeg
- Mwy o Welededd y Gymraeg

Engbreifftiau o sut y gallai'r cyflenwr gyflawni:

- Gwasanaethau dwyieithog – Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau, gwefannau a gweithdai busnes yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg. - defnyddiwch gyflenwyr lleol os nad ydynt ar gael yn fewnol.
- Hyrwyddo Treftadaeth Ddiwylliannol – Cefnogi artistiaid, cerddorion a chrefftwyr lleol trwy gyllid ac amlygiad.
- Cymorth i Ddysgu'r Gymraeg – Cynnig cyrsiau iaith am ddim i fusnesau a gweithwyr i annog defnydd dyddiol o'r Gymraeg.

7. Gogledd Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Deilliannau: Economi mwy cynaliadwy, moesegol a chynhwysol yng Nghymru sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at les byd-eang, gweithredu ar yr hinsawdd, a chyfiawnder cymdeithasol.

Engbreifftiau o sut y gallai'r cyflenwr gyflawni:

- Bwtcamps Sgiliau Gwyrdd: Hyfforddiant am ddim mewn adeiladu cynaliadwy, effeithlonrwydd ynni, ac ôl-ffitio.
- Gweithdai Caffael Moesegol: Sesiynau ar gyfer busnesau bach a chanolig ar gaffael moesegol, atal caethwasiaeth fodern, a masnach deg.
- Labordai Arloesi Economi Cylchol: Partneru â cholegau, prifysgolion, neu ddarparwyr hyfforddiant annibynnol i archwilio atebion pwrpasol ar gyfer anghenion eich sefydliad.
- Addysg Dinasyddiaeth Fyd-eang: Cyflwyno gweithdai ar gyfiawnder hinsawdd, cadwyni cyflenwi byd-eang, a defnyddwyr moesegol.
- Cymorth Cychwynnol Cynaliadwy: Mentora a chyllid sbarduno ar gyfer eco-entrepreneuriaid a mentrau cymdeithasol.
- Hyfforddiant Llythrennedd Carbon: Hyfforddiant achrededig i staff a chyflenwyr i ymgorffori ymwybyddiaeth o'r hinsawdd.
- Ymgyrchoedd Recriwtio Cynhwysol: Cymorth wedi'i dargedu i ffoaduriaid, lleiafrifoedd ethnig, a phobl anabl mewn sectorau gwyrdd.
- Mapio Cadwyn Gyflenwi Leol: Helpu sefydliadau angori i adnabod ac ymgysylltu â chyflenwyr lleol i leihau milltiroedd carbon.

Adrodd a chofnodi

Adrodd

- Bydd yn ofynnol i'r Cyflenwr gyflwyno adroddiadau manwl erbyn dyddiad cau a osodir ymlaen llaw. Bydd y dyddiadau cau hyn yn cael eu cyfathrebu ymhell ymlaen llaw, gan sicrhau nad oes dryswch. Dylid dychwelyd adroddiadau ar amser i sicrhau bod modd monitro cynnydd y prosiect yn gyson. Bydd yr adroddiadau hyn yn gwasanaethu fel diweddariad strwythuredig ar weithgareddau'r cyflenwyr sy'n ymwneud â gwerth cymdeithasol, gan gynnwys cynnydd tuag at dargedau ac amcanion y cytunwyd arnynt.
- Cysondeb a Thryloywder: Bydd fformat a chynnwys yr adroddiadau hyn yn cael eu safoni. Rhaid i gyflenwyr gynnwys yr holl fetrigau, data ac esboniadau naratif perthnasol am eu gweithgareddau, eu llwyddiannau a'u heriau wrth ddarparu gwerth cymdeithasol. Bydd adrodd rheolaidd hefyd yn caniatáu tryloywder yn y ffordd y mae cyflenwyr yn bodloni'r disgwyliadau a nodir yn eu contractau.
- Amserlen Adrodd Glir: Bydd cyflenwyr yn cael gwybod am yr union ddyddiadau y mae gofyn i adroddiadau gael eu cyflwyno ac amlder cyflwyno (chwarterol), gan sicrhau eu bod yn barod ac yn cael digon o amser i gasglu'r data gofynnol. Dylai'r atodlen hon fod yn rhan o delerau'r contract, gyda hyblygrwydd lle bo angen i ddarparu ar gyfer oedi annisgwyl.

Cofnodi

- Oriau wedi'u cofnodi neu eu cyflwyno: Bydd yn ofynnol i gyflenwyr olrhain a dogfennu cyfanswm nifer yr oriau a dreulir ar gyflawni gweithgareddau gwerth cymdeithasol. Gallai hyn gynnwys oriau gwirfoddoli, amser a dreulir ar hyfforddiant, gweithdai, ac unrhyw weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r nodau gwerth cymdeithasol. Bydd angen cofnodi pob awr yn glir, gyda disgrifiadau o'r hyn a wnaed, sut mae'n cyfrannu at y targedau gwerth cymdeithasol, a chanlyniad yr oriau hynny. Dylai'r oriau a gofnodwyd adlewyrchu nid yn unig maint, ond ansawdd ac effaith yr amser a fuddsoddwyd.
- Mesur Effaith: Ochr yn ochr â'r oriau a gofnodwyd neu a gyflwynwyd, bydd angen i gyflenwyr hefyd asesu a chofnodi effaith eu gweithgareddau gwerth cymdeithasol. Mae hyn yn golygu dogfennu'r manteision diriaethol ac anniriaethol sydd wedi deillio o'r gweithgareddau hyn, megis datblygu sgiliau, ymgysylltu â'r gymuned, creu swyddi, a newidiadau cadarnhaol eraill. Gellid mesur effaith trwy arolygon, tystebau, neu fecanweithiau adborth eraill gan fuddiolwyr neu gyfranogwyr. Bydd y data hwn yn hanfodol i ddeall sut mae'r gwerth cymdeithasol a ddarperir yn cyd-fynd â nodau ehangach y prosiect.
- Gwariant Ariannol a Gwerth Cymdeithasol: Bydd disgwyl i gyflenwyr hefyd ddarparu cofnodion o unrhyw adnoddau ariannol sy'n ymroddedig i ddarparu gwerth cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wariant ariannol uniongyrchol ar fentrau fel rhaglenni

hyfforddi, offer ar gyfer prosiectau cymunedol, neu gyllid ar gyfer busnesau lleol neu elusennau. Dylai cyflenwyr amlinellu cyfanswm y gwariant ariannol ochr yn ochr â gwerth amcangyfrifedig y canlyniadau cymdeithasol a gyflawnwyd. Gallai hyn gynnwys defnyddio offer neu fethodolegau sy'n cyfrifo'r gwerth cymdeithasol a grëwyd yn seiliedig ar fewnbynnau ariannol, megis dadansoddiadau cost-budd neu fframweithiau sydd wedi'u cynllunio i feintio canlyniadau anariannol mewn termau ariannol.

- Tryloywder mewn Adrodd Ariannol: Mae dadansoddiad clir o gofnodion ariannol yn hanfodol. Rhaid i gyflenwyr olrhain pob ceiniog a wariwyd yn uniongyrchol ar ddarparu gwerth cymdeithasol a sicrhau tryloywder yn y ffordd y dyrannir arian. Os yw'n berthnasol, dylid cofnodi ac adrodd ar unrhyw arian cyfatebol neu gyfraniadau gan bartneriaid neu randdeiliaid eraill, fel bod cwmpas llawn buddsoddiad ariannol mewn gweithgareddau gwerth cymdeithasol yn weladwy.

Crynodeb

Adrodd: Rhaid i gyflenwyr gyflwyno adroddiadau erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno ymlaen llaw. Rhaid i'r adroddiadau hyn gynnwys data cynhwysfawr ar weithgareddau, cynnydd, ac unrhyw faterion a wynebwyd, gyda fformat safonol ar gyfer cymhariaeth a thryloywder hawdd.

Cofnodi: Mae angen i gyflenwyr olrhain ac adrodd ar:

- Nifer yr oriau a gyflwynir mewn perthynas â gweithgareddau gwerth cymdeithasol.
- Effaith benodol y gweithgareddau hynny, sy'n arddangos canlyniadau ansoddol a meintiol.
- Y buddsoddiad ariannol a wnaed i ddarparu gwerth cymdeithasol, ochr yn ochr ag amcangyfrif o'r gwerth a gynhyrchir o'r buddsoddiadau hynny.
- Cofnodi ac adrodd am unrhyw wariant ariannol a gwerth o werth cymdeithasol a ddarperir.

Enghraifft:

Datblygu Gweithlu Lleol – Cynnal gweithdai am ddim ar sgiliau ynni adnewyddadwy ar gyfer crefftwyr lleol.

Nifer y gweithdai a gynheliwyd: 6

Hyd y gweithdai: 2 awr yr un

Nifer y mynychwyr fesul gweithdy: 15

Adnoddau defnyddiol

Ysgol Cynaliadwyedd y Gadwyn Gyflenwi

- Lawrlwythwch eu ['Ymgorffori Gwerth Cymdeithasol mewn Caffael: Canllaw Ymarferol i BBaChau'](#) a grëwyd mewn partneriaeth ag Ysgol Fusnes Caerdydd.

Mae'n cynnwys:

- Rhestr wirio i gynorthwyo busnesau bach a chanolig i ymgorffori gwerth cymdeithasol yn eu gweithrediadau
- Deall gwerth cymdeithasol a'i bwysigrwydd i fusnesau bach a chanolig
- Archwilio heriau cyffredin i fusnesau bach a chanolig wrth ymgorffori gwerth cymdeithasol
- Strategaethau ar gyfer goresgyn yr heriau cyffredin hyn ac ymgorffori gwerth cymdeithasol

Efallai y bydd angen i chi greu cyfrif a chwilio am yr adnodd ar eu porth i'w lawrlwytho.

Porth Gwerth Cymdeithasol

- Lawrlwythwch eu dogfen ['Ennill mwy o gynigion: Canllaw hanfodol y cynigydd'](#). Mae'n cynnwys:

- Pam fod gwerth cymdeithasol yn bwysig mewn ceisiadau
- Beth mae prynwyr yn chwilio amdano
- Sut i wneud y gorau o'ch gwerth cymdeithasol
- Sut i brofi a rhannu eich cyflawniadau

Cysylltiadau defnyddiol

- [Mantell Gwynedd - Gwirfoddoli](#)
 - volunteer@mantellgwynedd.com
- [Croeso - Gwirfoddoli Cymru](#)